Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

cyfoethogi... gwella... glanhau... adfer...
newid... mynd i'r afael... amddiffyn... lleihau...
crëa le gwell... dylanwadu... ysbrydoli...
cynghori... rheoli... addasu

# Y GYFARWYDDEB FFRAMWAITH DWR A CHYNLLUNIO

# CYNGOR DECHREUOL I AWDURDODAU CYNLLUNIO YNG NGHYMRU A LLOEGR

RTPI
mediation of space · making of place

WLGA · CLILC

Local Government Association

**Chwefror 2006**

ea/br/bl/std/v1

## Y GYFARWYDDEB FFRAMWAITH DWR A CHYNLLUNIO GOFODOL

### Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr

Cyhoeddwyd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr (CFfD) yn Rhagfyr 2000 a chafodd ei thrawsosod i gyfraith Cymru a Lloegr yn Rhagfyr 2003. Mae'n cyflwyno cysyniad newydd o "statws da"[1] sy'n llawer mwy llym na mesurau ansawdd cyfredol yr amgylchedd dwr. Amcangyfrifir bod 95% o gyrff dwr mewn perygl o fethu â chyrraedd *"statws da".*

Mae'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd (CRhBA/RBMPs) sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb yn strategaethau pwysig newydd a ddylai ddylanwadu ar gynlluniau datblygu, a chael eu dylanwadu ganddynt. Rhaid cyhoeddi'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd cyntaf erbyn Rhagfyr 2009.

### Beth mae hyn yn ei olygu i gynllunwyr

Ni ddylai cynllunwyr aros tan 2009 am CRhBA/RBMPs. Mae angen i gyrff ac awdurdodau cynllunio feddwl am oblygiadau datblygiad arfaethedig a newid mewn defnydd tir ar ddwr, gan gynnwys y tu hwnt i ffin eu hawdurdod lleol, a gweithredu yn awr, gan ddefnyddio eu cynllun datblygu a gwaith sy'n ymddangos ynghylch Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd fel man cychwyn.

Mewn rhannau o Loegr, argymhellir twf mawr lle mae adnoddau dwr a'r gallu i ymdrin â chyfeintiau cynyddol o elifiant carthffosiaeth, yn cael eu cyfyngu yn barod. Mae angen i ddatblygiad yn y dyfodol gael ei gynllunio'n ofalus fel nad yw'n arwain at bwysau pellach ar yr amgylchedd dwr ac effeithio ar amcanion y GFfD.

Gall methiant i gydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr arwain at y ffaith y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn dod ag achosion cyfreithiol yn erbyn y DG. Mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb cyffredinol i beidio ag effeithio ar gyflawni cydymffurfiad y DG â Chyfarwyddebau'r Comisiwn Ewropeaidd.

Gall awdurdodau cynllunio lleol a chyrff cynllunio rhanbarthol helpu i gyflawni amcanion y GFfD yng nghylch cyntaf y GFfD drwy:

- Nodi'r materion ynglyn â rheoli dwr sy'n berthnasol i gynllunio gofodol – dylai polisïau cynllunio ddylanwadu ar ddyluniad a lleoliad datblygiad newydd i sicrhau nad yw'n creu pwysau niweidiol ar yr amgylchedd dwr a allai effeithio ar ein gallu i fodloni amcanion y GFfD.
- Cynnwys polisïau ar reoli dwr yn gynaliadwy yn eu cynlluniau datblygu – gan gynnwys polisïau mewn Strategaethau Gofodol Rhanbarthol, polisïau craidd mewn Fframweithiau Datblygu Lleol a pholisïau ar gyfer ardaloedd eang mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.
- Helpu i sicrhau bod deall y pwysau, a'r cyfleoedd, ar gyfer datblygiad yn cael eu hadlewyrchu yn y dadansoddiad sy'n sail i'r CRhBA/RBMP.
- Sicrhau bod cynlluniau gofodol yn cyd-fynd â Chynlluniau Rheoli Basnau Afonydd.

- Adolygu cynlluniau wedi cyhoeddi'r CRhBA/RBMPs i sicrhau eu bod yn cyfrannu tuag at ac nad ydynt yn effeithio ar gyflawni amcanion y GFfD.
- Defnyddio mecanweithiau sefydledig ar gyfer cyfranogiad cymunedol a chyfathrebu.

**Rhychwant**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi **cyngor dechreuol** i gynllunwyr gofodol ynghylch y Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr. Mae'n tynnu sylw at elfennau allweddol y Gyfarwyddeb ac yn amlinellu rhai o'i goblygiadau posibl ar gyfer y rhai hynny sy'n ymwneud â chynllunio gofodol. Mae'n adlewyrchu dealltwriaeth ar hyn o bryd ynglyn â gofynion cymhleth y GFfD. Mae gwaith yn parhau o fewn Ewrop a'r DG i egluro llawer o ofynion technegol y Cyfarwyddebau, gan gynnwys gwaith ar osod amcanion ac eithriadau. Bydd ein dealltwriaeth o'r Gyfarwyddeb yn datblygu gydag amser ac felly, **nid yw hon yn ganllaw ddiffiniol** – y cyngor hwn yw dechrau'r daith, nid y gyrchfan derfynol. Byddwn yn diweddaru'r cyngor pan fo angen hynny.

Mae'r Fframwaith ar gyfer Cynllunio Basnau Afonydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn nodi cynlluniau gofodol fel rhai sy'n arbennig o bwysig i gynllunio dwr. Noda nodiadau'r 'Canllawiau Cynllunio Basnau Afonydd' drafft Defra/LlCC "*lle bydd angen i fesurau gael eu cyflwyno drwy'r broses cynllunio datblygiad statudol, bydd yn rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd weithio gyda chynghorwyr etholedig i sicrhau bod yr holl ofynion CRhBA/RBMP perthnasol yn cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau gofodol statudol."*

Ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru cyhoeddi'r cyngor dechreuol hwn yw'r cam cyntaf mewn proses o gynyddu'r cysylltiad gyda chynllunwyr gofodol ynghylch y GFfD a'i goblygiadau ar gyfer cynllunio. Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu deialog fel y gall cynllunwyr gofodol ddeall yn gynyddol beth yw goblygiadau'r GFfD ar eu cyfrifoldebau. Drwy weithio gyda'n gilydd gallwn sicrhau bod nodau'r GFfD yn cyfateb ac yn cyd-fynd â'r ddyletswydd i gynlluniau datblygu gyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy.

**RHAGARWEINIAD**

Mae ansawdd dwr yn ein hafonydd, llynnoedd ac ar hyd yr arfordir, wedi gwella'n ddramatig yn ystod blynyddoedd diweddar. Anela'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr at adeiladu ar y cynnydd hwnnw a chyflawni safonau newydd ac uwch yn gyson, ar gyfer yr amgylchedd dwr ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n un o'r darnau o ddeddfwriaeth amgylcheddol mwyaf pell-gyrhaeddol, cyffrous a chymhleth hyd yma. Bydd angen dealltwriaeth fwy a mwy soffistigedig o'r modd y mae systemau dalgylchoedd cyfan yn gweithredu fel prif gyfrwng i'r amgylchedd ehangach i weithredu'r GFfD. Bydd gofynion newydd hefyd ar gyfer cysylltu â rhan-ddeiliaid a'r cyhoedd, wrth gynllunio dwr.

Daeth y GFfD i rym yn Rhagfyr 2000 a chafodd ei thrawsosod i gyfraith Cymru a Lloegr yn Rhagfyr 2003. Gwnaed diwygiadau i'r systemau cynllunio yng Nghymru a Lloegr dros gyfnod tebyg, gan ddiweddu yn y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae'r cysyniad o ddatblygiad cynaliadwy wrth galon y ddau set o ddeddfwriaeth, a rhaid i'r GFfD a'r system gynllunio newydd anelu at fodloni'r tair agwedd ar ddatblygiad cynaliadwy – cynnydd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Atgyfnerthir y cyd-destun hwn gan y gofyniad am Werthusiad Cynaliadwyedd o gynlluniau datblygu, sy'n cynnwys Asesiad Amgylchedd Strategol (AAS) a chymhwyso'r gyfarwyddeb AAS at y Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr.

Mae cynllunwyr gofodol yn fwy a mwy ymwybodol o'r angen sylfaenol i reoli pwysau datblygiad yn erbyn cefndir o faterion a chyfyngiadau heriol sy'n gysylltiedig â dwr. Mae'r GFfD yn dod â sialensau newydd i gynllunwyr oherwydd rhaid i'r ddarpariaeth o adnoddau dwr digonol a thrin dwr gwastraff beidio â pheri i'r amgylchedd dwr ddirywio. Yn gyffredinol, rhaid sicrhau cynnydd tuag at statws dwr gwell. Bydd gan gynllunio gofodol rôl bwysig i'w chwarae mewn cyflawni'r gofynion hyn.

Mae'r her i gynllunwyr ar ei fwyaf pan argymhellir datblygiad lle mae'r amgylchedd dwr eisoes yn fregus. Mae'n rhaid i effeithiau newid yn yr hinsawdd gael eu cymryd i ystyriaeth hefyd oherwydd bod y GFfD yn edrych ymlaen mor bell â 2027. Dyma'r dyddiad terfyn olaf ar gyfer cyflawni amcanion, ond mae'r broses cynllunio yn parhau am byth ac mae'n bosibl y bydd angen i amcanion gael eu hadolygu a'u diweddaru. Gyda'i ffocws ar ddefnyddio dwr yn gynaliadwy ac amcanion ecolegol, mae'r GFfD yn gyfle i bob cynllunydd helpu i gyflawni amgylchedd mwy cynaliadwy a rhoi rheoli dwr yn gynaliadwy wrth ganol agenda cynllunio gofodol.

# ADRAN 1 – Y GYFARWYDDEB FFRAMWAITH DWR

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr (2000/60/GE) yn gyfle mawr i wella'r amgylchedd dwr cyfan a hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ddwr. Mae'n berthnasol i bob corff dwr wyneb, gan gynnwys llynnoedd, nentydd, afonydd, aberoedd a dyfroedd arfordirol hyd at 1 milltir o ddwr bas ac at ddyfroedd artiffisial fel camlesi. Mae'n berthnasol hefyd i ddwr daear.

Amcan cyffredinol y Gyfarwyddeb yw sefydlu fframwaith strategol (yn seiliedig ar fasnau afonydd) ar gyfer rheoli dwr wyneb a dwr daear drwy amcanion ac egwyddorion cyffredin.

Y cysyniadau allweddol sy'n sail i'r GFfD yw cynllunio basnau afonydd integredig a rheolaeth. Mae pob rhan o'r cylch dwr yn gysylltiedig â'i gilydd a gall camau a gymerir mewn un rhan o fasn afon effeithio ar rannau eraill. Anela Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd integredig at osgoi'r anawsterau a all ddeillio o agwedd ddarniog at reoli dwr. Mae'r GFfD yn mynnu bod y prif faterion sy'n ymwneud â dwr fel argaeledd cyflenwadau dwr, cynnal ansawdd dwr mewn afonydd a rheoli perygl llifogydd yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd yn hytrach nag yn cael eu trin fel agweddau ar wahân.

Un o bwrpasau'r GFfD yw hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ddwr. Amcanion amgylcheddol craidd y GFfD a'r CRhBA a baratoir oddi tani yw:

- atal dirywiad i ecosystemau dyfrol
- gwarchod, gwella ac adfer dyfroedd a dwr daear wedi eu llygru i 'statws da'. Seilir 'statws da' ar ffactorau ecolegol a chemegol ar gyfer dwr wyneb, a chyfanswm y dwr a'r statws cemegol ar gyfer dyfroedd daear.
- cydymffurfio â safonau sy'n gysylltiedig â dwr ac amcanion ar gyfer ardaloedd a warchodir yn amgylcheddol a sefydlwyd o dan ddeddfwriaeth arall yr UE.
- cwtogi'n gynyddol ar lygredd o sylweddau y rhoddir blaenoriaeth[1] iddynt ac atal arllwysiadau o sylweddau peryglus[2] y rhoddir blaenoriaeth iddynt.
- atal neu gyfyngu ar fewnbwn y llygrwyr i'r dwr daear, a gwyrdroi unrhyw dueddiadau sylweddol tuag at i fyny yn y crynodiad o unrhyw lygrwr i ddwr daear.

Cyflwynir yr amcanion amgylcheddol craidd yn Erthygl 4 y Gyfarwyddeb.

[1] Mae sylweddau y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn llygrwyr unigol neu yn grwpiau o lygrwyr y mae perygl sylweddol ynghlwm wrthynt i neu drwy'r amgylchedd dyfrol. Fe'u rhestrir mewn cyfarwyddeb sydd ar fin ymddangos gan y Comisiwn Ewropeaidd a dylid anelu mesurau at eu cwtogi yn gynyddol o dan y Gyfarwyddeb.

[2] Sylweddau peryglus y rhoddir blaenoriaeth iddynt yw'r rhai sy'n llygru fwyaf. Dylai mesurau gael eu hanelu at atal neu ddirwyn i ben arllwysiadau, allyriadau neu golledion.

## RHANBARTHAU BASNAU AFONYDD

Y brif uned ar gyfer adrodd o dan y Gyfarwyddeb yw Rhanbarth Basn Afon (RhBA). Diffinnir hyn fel basn afon, neu nifer o fasnau afonydd, ynghyd â lleiniau o ddwr arfordirol. Ceir naw RhBA yng Nghymru a Lloegr. Rhennir dau RhBA sy'n croesi'r ffin gyda'r Alban. Mae dwr arfordirol (allan at un filltir forol yng Nghymru a Lloegr) yn ogystal â dwr daear yn ffurfio rhan o'r RhBA agosaf neu fwyaf priodol. Mae RhBA yn debyg o ran graddfa i ranbarthau Swyddfeydd y Llywodraeth (SLl) yn Lloegr ond mae ganddynt derfynau gwahanol. (Ceir map yn cymharu ffiniau RhBA â ffiniau Swyddfeydd y Llywodraeth yn Lloegr, ac yng Nghymru yn Atodiad 1).

## CYNLLUNIO RHEOLAETH BASNAU AFONYDD

Y prif allbwn o'r ddeddfwriaeth newydd fydd **Cynllun Rheoli Basnau Afon** ar gyfer pob RhBA yng Nghymru a Lloegr. Rhaid i'r rhain gael eu cyhoeddi, yn eu ffurf derfynol, erbyn Rhagfyr 2009. Cyhoeddir CRhBA drafft ar gyfer ymgynghori yn eu cylch flwyddyn yn gynharach yn Rhagfyr 2008. Cefnogir y dogfennau strategol lefel uchel hyn gan gynlluniau atodol lle bo hynny'n angenrheidiol. Byddant yn cadarnhau yr amcanion amgylcheddol ar gyfer pob corff dwr ac yn crynhoi'r Rhaglenni o Fesurau sy'n ofynnol i'w cyflawni.

Er mwyn llunio CRhBA a gosod amcanion, mae angen i ni ddeall y cysylltiadau cymhleth rhwng llifiadau afonydd a dwr daear (hydroleg), ffurf ffisegol afonydd a gorlifdiroedd (morffoleg) a chrynodiadau/gwasgariad cemegol yn yr amgylchedd naturiol.

Cyflwynir pwrpas y GFfD uchod. Yn ymarferol, bydd gosod amcanion pendant ar gyfer pob corff dwr yn broses gymhleth, ailadroddus. Bydd yn cael ei gysylltu yn agos gyda datblygu Rhaglenni o Fesurau y bwriedir iddynt gyflawni'r amcanion hyn. Mae hyn oherwydd fod y Gyfarwyddeb yn caniatáu ar gyfer gosod amcanion eraill mewn rhai amgylchiadau – yn arbennig pe bai'r mesurau angenrheidiol i fodloni'r amcanion gwreiddiol yn anymarferol yn dechnegol neu yn afresymol o gostus. Mae amcanion sylfaenol y GFfD yn ei gwneud yn ofynnol i ni 'anelu at gyflawni' statws da ar gyfer dyfroedd wyneb a dyfroedd daear erbyn 2015.

Rhaid gwneud Rhaglenni o Fesurau yn weithrediadol erbyn 2012 a bydd cynlluniau monitro newydd yn cael eu cyflwyno i helpu i adolygu eu heffeithiolrwydd.

Mae amcanion y GFfD yn dargedau uchelgeisiol ac mae'r Gyfarwyddeb yn cynnwys dau gylch cynllunio chwe blynedd pellach (2015-2021 a 2021-2027 yw'r ail a'r trydydd cylch). Mewn rhai achosion, gall y terfyn amser ar gyfer cyflawni amcanion gael ei ymestyn i 2021 neu 2027 neu gellir gosod amcanion eraill. Rhaid i unrhyw amcanion eraill gael eu cyfiawnhau, yn gyffredinol am resymau yn ymwneud â chost afresymol neu ymarferoldeb technegol mesurau adfer, cyn belled ag y bo'r corff dwr yn cael ei warchod rhag i ddirywiad pellach ddigwydd.

Lle bo gweithgareddau datblygiad dynol (e.e. mordwyo, rheoli llifogydd, storio dwr) wedi newid siâp neu lif corff dwr a'i atal rhag cyrraedd *statws da*, gellir ei ddynodi fel un sydd 'wedi ei ddiwygio'n drwm' lle mae angen parhaus am y gweithgaredd dan sylw. Ar gyfer y cyrff dwr hyn, yr amcan yw cyrraedd **potensial ecolegol da** erbyn 2015. Mae hwn hefyd yn amcan anodd ei gyflawni. Mae mor agos at *statws da* â phosibl, gan roi ystyriaeth i effaith y diwygiad.

## CYLCH Y GFfD




Ffigur 1: Y Cylch Rheoli Basnau Afonydd
Noder: Mae Rhaglen o Fesurau yn set o gamau i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb ac mae CRhBA yn Gynllun Rheoli Basn Afon

## NODWEDDU BASNAU AFONYDD

Pwrpas Nodweddu Basnau Afonydd yw asesu'r pwysau a'r effeithiau ar gyrff dwr er mwyn mesur a ydynt mewn perygl o fethu â chyflawni amcanion y GFfD yn 2015. Cwblhawyd asesiad dechreuol a chyhoeddwyd mapiau risg ym Mawrth 2005. Bydd hyn yn ffurfio sail ar gyfer gosod amcanion a datblygu Rhaglenni o Fesurau ar gyfer CRhBA 2009. Bydd rhaglenni monitro, i'w cyflwyno o 2007, yn ei gwneud yn bosibl i nodweddu pellach gael ei gyflawni a fydd yn egluro statws cyrff dwr ar gyfer cylchoedd dilynol o gynllunio'r GFfD. Dosberthir cyrff dwr i bump o ddosbarthiadau statws ecolegol: *uchel, da, cymedrol, gwael a drwg*. *Yn ychwanegol ceir dau ddosbarth statws dwr daear.*

Mae'r mathau o bwysau a nodwyd gan y Gyfarwyddeb yn cynnwys;

- ffynonellau llygredd o un pwynt a llygredd gwanedig;
- tynnu dwr;
- rheoleiddio llifiadau dwr wyneb;
- newidiadau i forffoleg (nodweddion ffisegol) cyrff dwr

# RHAGLEN O FESURAU

Rhaid i bob CRhBA gynnwys crynodeb o'r Rhaglen o Fesurau. Bydd y mesurau hyn yn cyflwyno'r gwelliannau amgylcheddol sy'n ofynnol i gwrdd â'r amcanion ar gyfer y cyrff dwr yn y Rhanbarth Basn Afon. Gall mesurau fod yn ddeddfwriaethol, yn ariannol, neu yn wirfoddol. Gallent gynnwys defnyddio caniatadau arllwys i ymdrin â ffynonellau llygredd o un pwynt arbennig (e.e. o waith trin carthffosiaeth), rhaglenni addysg (e.e. ynghylch llygredd gwanedig i ffermwyr), strategaethau ar gyfer adfer afonydd **neu bolisïau cynllunio gofodol**.

Mae'n rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd ystyried cost-effeithiolrwydd wrth lunio Rhaglenni o Fesurau ar gyfer pob RhBA.

Bydd gweithredu Rhaglenni o Fesurau yn golygu dwyn ynghyd gyllid o ffynonellau amrywiol a chydlynu gweithgareddau cyrff gyda diddordeb yn y defnydd o dir a dwr. Bydd yn ofynnol i rai mesurau gael eu gweithredu gan awdurdodau lleol drwy'r system cynllunio defnydd tir, er enghraifft rhoi caniatâd cynllunio gydag amodau cynllunio priodol a/neu rwymedigaethau cynllunio. Gallai'r rhain olygu y byddai angen i fesurau (e.e. Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS), ailgylchu dwr llwyd ac ati) gael eu gweithredu neu i gyllid gael ei ddarparu.

# ADRAN 2 – POLISI A CHANLLAWIAU YNGHYLCH DEDDFWRIAETH GYFREDOL

Noda Rheoliadau Amgylchedd Dwr (y Gyfarwyddiaeth Fframwaith Ddwr) (Cymru a Lloegr)[3] fod

i) Rheoliad 17 yn rhoi dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i *"roi ystyriaeth"* i Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd (a chynlluniau atodol) wrth ymarfer eu swyddogaethau.

ii) Rheoliad 19 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus ddarparu gwybodaeth a rhoi *"pa gymorth bynnag ag y gall yr Asiantaeth (yr Amgylchedd) yn rhesymol ofyn amdano mewn cysylltiad â'i swyddogaethau CFfD..."*

Ychwanegir at y Rheoliadau hyn gan ganllawiau statudol pellach a/neu Gyfarwyddiadau. Bwriada Defra a Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch Cynllunio Basnau Afonydd yn Hydref 2006 (cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch drafft o'r canllawiau o 13 Rhagfyr 2005 i 7 Mawrth 2006, gweler: http:\\www.defra.gov.uk/corporate/consult/wfd/index.htm). Bydd y canllawiau hyn yn cyflwyno disgwyliadau'r Ysgrifennydd Gwladol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â chamau ac egwyddorion allweddol y broses Cynllunio Basnau Afonydd. Cyfeiria'r ymgynghoriad drafft at y cysylltiadau gyda cynllunio datblygu statudol – yn arbennig cysylltiad y CRhBA/RBMPs â Strategaethau Gofodol Rhanbarthol (SGRh) a Fframweithiau Datblygu Lleol (FfDLl) a Chynllun Gofodol Cymru a Chynlluniau Datblygu Lleol – mae cwestiwn 7 yn gofyn a fydd y cysylltiadau hyn yn ddigonol.

Cyfeiria Datganiadau Polisi Cynllunio diweddar ar gyfer Lloegr at y GFfD/WFD. Maent yn cynnwys y canlynol:-

i) Mae PPS11 Strategaethau Gofodol Rhanbarthol yn Lloegr, Atodiad A, *'Polisi a chanllawiau ynghylch pynciau i ymdrin â hwy mewn RSS' yn nodi bod y GFfD: - "yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddyfroedd mewndirol ac arfordirol gyrraedd 'statws da' erbyn 2015. Bydd yn gwneud hyn drwy sefydlu strwythur rhanbarthau basnau afonydd y gosodir amcanion amgylcheddol anodd o'u mewn, gan gynnwys targedau ecolegol ar gyfer dyfroedd wyneb. Gweler yn arbennig 'Dyletswydd i roi ystyriaeth i gynlluniau rheoli basnau afonydd a chynlluniau atodol.'"*

ii) Mae gan PPS23 'Cynllunio a Rheoli Llygredd' atodiad ar reoli llygredd, ansawdd aer a dwr ac mae'n cynghori awdurdodau cynllunio i roi ystyriaeth i'r GFfD yn awr.

[3] Mae Rheoliadau ar wahân yn ymdrin â Rhanbarthau Basnau Afonydd "traws-ffiniol" Solway-Tweed a Northumbria.

iii) Mae nodyn canllaw Polisi Cynllunio PPG25 'Datblygiad a Perygl Llifogydd' yn cynnwys cyfeiriadau at y GFfD gan gynnwys, o dan 'Pwrpas a rhychwant y canllawiau': *"Dylai awdurdodau cynllunio ... ystyried y materion a godir gan lifogydd ar y raddfa ehangach (ar ddalgylch yr afon a'r gell arfordirol) a'r angen i weithio gyda phrosesau naturiol wrth gynllunio datblygiad yn y dyfodol. Mae hyn yn cyd-fynd â gofynion Cyfarwyddeb Fframwaith Dwr y GE mewn perthynas a chynlluniau rheoli basnau afonydd",* (para. 7). Ymrwymodd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog i adolygu nodyn Canllaw Polisi Cynllunio PPG25 a chyhoeddodd Ddatganiad Polisi Cynllunio drafft PPS25 yn Rhagfyr 2005.

iv) Mae Datganiad Polisi Cynllunio drafft PPS25 'Datblygiad a Pherygl Llifogydd' yn cynnwys cyfeiriadau at y GFfD – cyfeiriad at y canllawiau i'r GFfD yn y rhagarweiniad, y GFfD ei hun mewn testunau perthnasol eraill, a'r angen i Strategaethau Gofodol Rhanbarthol 'roi ystyriaeth' i'r polisïau mewn cynlluniau eraill, fel Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd (para. 6).

Mae polisïau cynllunio diweddar ar gyfer Cymru yn cynnwys:

i) Polisi Cynllunio Cymru (adran 13.10.3) – *"Ble mae ystyriaethau yn ymwneud â llygredd, a all fod yn berthnasol i awdurdodiad neu drwydded rheoli llygredd neu sy'n deillio o'r angen i gydymffurfio ag unrhyw safonau neu amcanion ansawdd amgylcheddol statudol, yn effeithio ar ddefnyddio a datblygu tir, gallant fod yn ystyriaethau cynllunio perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys ..... amcanion amgylcheddol a ddatblygwyd fel rhan o weithredu Cyfarwyddeb Fframwaith Dwr yr Undeb Ewropeaidd."*

ii) Mae Polisi Cynllunio Cymru (Adran 13.10.5) yn amlinellu egwyddorion y GFfD.

iii) Mae TAN15 'Datblygiad a Pherygl Llifogydd' yn cynnwys cyfeiriadau at y GFfD, e.e. para A5.9.

iv) Mae cyfeiriad penodol at ofynion y GFfD yng Nghynllun Gofodol Cymru (a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ym mis Tachwedd 2004). Noda hwn fod *"Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr yn ei gwneud yn ofynnol i ni reoli dwr yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys yr holl ffynonellau gwanedig o lygredd – yn arbennig o amaethyddiaeth gyda'i effaith ar ansawdd dwr. Bydd hyn yn cael effeithiau sylweddol, hyd yn oed er bod ansawdd ein dwr yn gyffredinol yn dda iawn yn ôl safonau Ewropeaidd".*

Mae 'Dangosyddion Allbwn Craidd ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol' ODPM Mawrth 2005 yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud â:-

i) datblygiad (amhriodol) yn y gorlifdir
ii) datblygiad sy'n effeithio yn niweidiol ar ansawdd dwr.

Mae'r ddau yn hynod o berthnasol i'r GFfD. Gall datblygiad yn y gorlifdir gael effaith ffisegol ar gyrff dwr cyfagos, y llifiadau o'u mewn, neu effeithio ar amgylcheddau sy'n ddibynnol ar y corff dwr. Gall dwr llifogydd sydd wedi ei lygru gyflwyno llygrwyr i gyrff dwr daear a dwr wyneb. Mae ansawdd dwr yn nodwedd allweddol ar gyfer asesu statws corff dwr.

# ADRAN 3 – BETH MAE'R GFfD YN EI OLYGU AR GYFER CYNLLUNIO GOFODOL

## PAM FOD YN RHAID I GYNLLUNIO GOFODOL RYNGWEITHIO GYDA CHYNLLUNIO'R GFfD

Mae'r cysyniad newydd o "statws da"[4] yn llawer mwy llym na mesurau cyfredol ynghylch ansawdd yr amgylchedd dwr, oherwydd ei fod yn edrych ar ffactorau ecolegol, yn ogystal â chemegol. Cefnogir statws cemegol ac ecolegol gan hydroleg a morffoleg da. I ddangos beth mae hyn yn ei olygu, dosberthir 93% o afonydd ar hyn o bryd fel rhai 'da' neu 'weddol' yn seiliedig ar eu cemeg. Ond amcangyfrifir bod 95% o gyrff dwr mewn perygl o beidio â chyrraedd *"statws da"*r GFfD. Gallai hyn gael goblygiadau dirfawr ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â chynllunio gofodol, datblygiad a buddsoddi.

Gall amgylchedd dwr da neu sy'n gwella fod yn ysgogiad ar gyfer buddsoddiad ac adfywhau, yn arbennig mewn ardaloedd trefol. Gall datblygiad gyfrannu at amgylchedd dwr gwell fyth, sy'n hyrwyddo balchder dinesig ac yn gwneud lleoliadau yn ddeniadol ar gyfer buddsoddiad pellach, ond gall hefyd effeithio yn niweidiol ar yr amgylchedd dwr, er enghraifft drwy ddiwygiadau ffisegol i gyrff dwr. Mae gan gynllunwyr dwr a chynllunwyr gofodol felly ddiddordeb cyffredin mewn gwella'r amgylchedd dwr. Dengys yr Astudiaeth Achos isod enghraifft o gynllunio dwr a chynllunio gofodol yn gweithio gyda'i gilydd.

**Astudiaeth Achos 1 – Dyfroedd Tame, Birmingham**

Mae ***Rheolaeth Gynaliadwy ar Afonydd Trefol a Gorlifdiroedd*** **(SMURF)** yn brosiect tair blynedd sy'n dwyn ynghyd y gwahanol ddiddordebau yn yr afonydd ac yn gofyn barn cymunedau lleol ynghylch sut y dymunant ddefnyddio coridorau'r afonydd. Mae'n dangos agwedd ddychmygus at reoli perygl llifogydd mewn gorlifdir sydd wedi ei ddatblygu'n helaeth. Mae gwaith gyda phartneriaid allweddol SMURF ynghylch goblygiadau'r GFfD wedi tynnu sylw at faint y problemau y mae'n rhaid eu goresgyn yn lleol i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb – e.e. cyrff dwr sydd wedi eu llygru a'u cyfyngu yn artiffisial, gyda dwr ffo o'r dalgylch trefol yn arwain at lefelau ocsigen isol, difwyno cyn fwyngloddiau, llygredd trefol gwanedig a phroblemau gyda rheoli peryglon llifogydd. Mae dyfroedd Tame yn dangos pa mor gymhleth y gall y bydd yn rhaid i'r atebion technegol a'r atebion o ran cyllido fod, i ymdrin ag etifeddiaeth o ddiraddiad amgylcheddol. Yn yr achos hwn mae cyfraniadau drwy'r system gynllunio (h.y. amodau a rhwymedigaethau cynllunio) i gyflawni amcanion y GFfD yn cyfrannu at y pecyn cyflawn.

Dyma dair ffordd y dylai cynllunio gofodol a chynllunio'r GFfD ryngweithio:-

### 1. Ymdrin â Phwysau sy'n bodoli'n Barod

Mewn lleoedd lle mae perygl y bydd cyrff dwr yn methu â chyrraedd *statws da* gall polisi cynllunio gofodol gyfrannu at, neu gefnogi'r mesurau y bydd yn rhaid eu cyflwyno i sicrhau'r statws hwnnw. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd

[4] ac ar gyfer cyrff dwr sydd wedi eu diwygio'n helaeth (gweler Pennod 2) mae'r cysyniad o "botensail da" yn berthnasol

yn un yr ymgynghorir yn statudol â hi ynghylch cynlluniau datblygu ac eisoes yn rhoi prif flaenoriaeth i roi sylwadau ynghylch cynlluniau datblygu sy'n ymddangos, gan gynnwys hyrwyddo rheoli dwr yn gynaliadwy. Mae hyn yn sylfaen bwysig ar gyfer y dyfodol. Gall cynllunwyr gofodol wneud cyfraniad mawr at gyflawni amcanion y GFfD drwy gynnwys rheoli dwr yn gynaliadwy mewn polisïau cynlluniau datblygu a thrwy gynnwys amodau a rhwymedigaethau cynllunio priodol ar gyfer datblygiadau newydd mewn caniatadau cynllunio perthnasol.

Bydd angen i'r dull o gynllunio at y GFfD fod yn ailadroddus oherwydd y gwahanol amserlenni ar gyfer cynlluniau datblygu a Chynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Cymerir mantais lawn o gyfleoedd i gynlluniau datblygu ymdrin â'r pwysedd sy'n bodoli ar hyn o bryd dros GFfD a chylchoedd cynllunio datblygu olynol, ond mae angen gweithredu rhywfaint yn awr os ydym i gwrwdd ag amcanion y GFfD erbyn 2015:-

i) Ni fydd amcanion y GFfD sy'n benodol ar gyfer lleoliadau arbennig yn cael eu cwblhau tan 2009. Bydd angen i bolisïau rheoli dwr cynaliadwy mwy cyffredinol er hynny gael eu cynnwys yn y cylch cyfredol o gynlluniau datblygu.

ii) Mae angen gweithredu yn awr oherwydd mae'n bosibl na fydd mesurau yn cael effaith am beth amser. Gall hyn fod oherwydd yr amser fydd yn mynd heibio rhwng y broses cynllunio strategol a chyflawni'r datblygiad, neu oherwydd bod y mesurau yn dod ag effeithiau yn raddol yn unig. Er enghraifft, daw effaith Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS) yn fwy arwyddocoal wrth i effaith cronnus gosodiadau unigol ddatblygu dros y blynyddoedd.

Ar gyfer Strategaethau Gofodol Rhanbarthol yn Lloegr mae'n hanfodol, oherwydd eu natur lefel uchel, strategol, tymor hir, eu bod yn adlewyrchu gofynion trosfwaol sy'n ymwneud â rheoli dwr yn gynaliadwy.

## 2. Datblygiad yn y dyfodol a'i effaith

Gall newidiadau mewn defnydd tir a datblygiadau newydd effeithio ar ansawdd ecolegol a chemegol a nodweddion ffisegol cyrff dwr. Gall datblygiad newydd ddod â phwysau pellach ar yr amgylchedd dwr a bygwth cyflawni amcanion y GFfD. Mewn rhai rhannau o Loegr, mae pryder yn barod am effaith argymhellion datblygu mawr newydd sy'n dyddio cyn y GFfD. Nid yn unig y mae adnoddau dwr yn cael eu cyfyngu ond gall cyfeintiau mwy o elifiant carthffosiaeth fod yn broblem. Mae'r Astudiaeth Achos (2) isod yn tynnu sylw at hyn.

**Astudiaeth Achos 2 – Basingstoke**

Lleolir Basingstoke ar flaenddyfroedd afon Loddon ac mae gwaith trin carthffosiaeth (STW) y dref yn llai na 8km o'i tharddiad. Dosberthir y rhan hon o ddyfroedd Loddon hefyd fel pysgodfa eogaidd o dan y Gyfarwyddeb Pysgod Dwr Croyw ac fe'i dynodir fel ardal sensitif o dan y Gyfarwyddeb Trin Dwr Gwastraff Trefol. Oherwydd agosrwydd yr arllwysiad STW at

darddiad yr afon, cyfyngir ar y llif o ddwr sydd ar gael i wanhau'r carthffosiaeth. Mae'r astudiaeth achos yn tynnu sylw at y ffaith:-

1. Fod yn rhaid i drin dwr gwastraff gael ei gydadnabod fel ystyriaeth allweddol mewn dewis safleoedd ar gyfer datblygiad;

2. Rhaid i awdurdodau lleol, cwmnïau dwr ac Asiantaeth yr Amgylchedd weithio gyda'i gilydd i gyflawni cydymffurfiad â'r Gyfarwyddeb;

3. Mae angen ymdrin â goblygiadau'r gost o ddarparu seilwaith mewn cynlluniau datblygu sy'n ymddangos.

Dylai RSS gynnwys polisïau strategol ynglyn â'r GFfD. Mae angen i bolisau craidd mewn LDFs sy'n cyfeirio at y GFfD fod yn eu lle erbyn 2007, fel y gall unrhyw gynlluniau gweithredu ardal olynol ymdrin â materion sy'n ymddangos ynglyn â'r GFfD. Bydd angen i GDLl yng Nghymru gynnwys polisïau ar gyfer ardal gyfan hefyd gan gyfeirio at y GFfD. Mae'n bosibl y bydd angen i rai cynlluniau gael eu hadolygu wedi i GRhBA/RBMPs gael eu cyhoeddi er mwyn sicrhau nad ydynt yn amharu ar, ac yn wir yn cyfrannu tuag at, gyflawni amcanion y GFfD.

Dylai polisïau'r cynlluniau ddylanwadu ar ddyluniad a lleoliad datblygiad newydd i sicrhau nad ydynt yn creu pwysau niweidiol ar yr amgylchedd dwr a allai amharu ar ein gallu i gyflawni amcanion y GFfD. Wrth lunio polisïau o'r fath dylai Cyrff Cynllunio Rhanbarthol ac Awdurdodau Cynllunio Lleol feddwl am oblygiadau datblygiad arfaethedig y tu hwnt i'w ffiniau.

O dan y GFfD, rhaid i ddatblygiad beidio ag arwain at unrhyw ddirywiad yn statws cyrff dwr wyneb. Pe bai dirywiad byddai hyn yn torri ar amcanion y GFfD ac yn arwain at berygl o achos o droseddu gan yr Undeb Ewropeaidd. Ond mae darpariaethau yn y GFfD ar gyfer gosod amcanion yn achos:

- *"diwygiadau newydd"* i nodweddion ffisegol cyrff dwr;
- dirywiad o *"statws uchel"* i *"statws da"* o ganlyniad i weithgareddau "datblygiad dynol cynaliadwy newydd"; a
- chyrff dwr wedi eu diwygio yn helaeth a chyrff dwr artiffisial.

Ceir amodau y mae'n rhaid eu bodloni ar gyfer pob un o'r sefyllfaoedd hyn. Mae'r amodau yn wahanol ar gyfer pob un o'r tri achos, ond maent yn ymwneud â ph'run ai:

- a fyddai ddim yn ymarferol yn dechnegol neu'n anghyfartal o gostus i gyflawni amcanion y GFfD;
- mae'r manteision i'r amgylchedd a chymdeithas o gyflawni amcanion y GFfD yn cael eu gwrthbwyso gan fanteision y diwygiad/datblygiad arfaethedig;
- mae dewis amgylcheddol sy'n sylweddol well ar gyfer y diwygiad/datblygiad.

## 3. Darparu gwybodaeth i Asiantaeth yr Amgylchedd

Bydd cynlluniau datblygu sy'n ymddangos yn ffynhonnell gwybodaeth bwysig ynghylch pwysau yn y dyfodol a all helpu Asiantaeth yr Amgylchedd i fireinio ei Nodweddiad dechreuol (gweler Adran 1). Seiliwyd Nodweddiad 2004 ar bwysau presennol sydd wedi eu dogfennu. Cymerodd gynlluniau buddsoddi cwmnïau dwr presennol i ystyriaeth, ond nid edrychodd y tu hwnt i'r rhain.

Bydd nodweddiad pellach yn edrych ar ddatblygiad newydd nad yw eto wedi ei adlewyrchu yng nghynlluniau'r cwmnïau dwr. Mae'n arbennig o bwysig nodi datblygiad a all achosi dirywiad mewn statws dwr, neu a all atal cyrff dwr rhag cyrraedd statws da, oherwydd mae perygl o achos troseddu pellach os yw mesurau lliniaru yn aneffeithiol. Gall awdurdodau cynllunio helpu'r dasg o nodweddu yn sylweddol drwy ddarparu gwybodaeth. Byddai'n gymorth pe bai'r wybodaeth hon yn cael ei darparu mewn ffurf gyson ar draws Cymru a Lloegr.

### CYNLLUNIAU/ADRODDIADAU'r GFfD AC AMSERLENNI CYNLLUNIO GOFODOL

<table>
<tr><th>Cynllun/ Adroddiad y GFfD</th><th>Terfynau Amser</th><th>Pwnc</th><th colspan="2">Cynlluniau Datblygu</th></tr>
<tr><td>Nodweddiad Basnau Afonydd (Erthygl 5)</td><td>Rhag 2004</td><td>Nodweddiad Cyrff Dwr ac Adolygiad o Effaith Gweithgareddau Dynol ar yr Amgylchedd Dwr</td><td rowspan="6">Paratoi RSSs (Cynllun Gofodol Cymru Tachwedd 2004)</td><td rowspan="2">Paratoi Fframweithiau Datblygu Lleol Cynlluniau Datblygu Lleol (Hydref 2005)*</td></tr>
<tr><td>Datganiad o Gamau a Mesurau Ymgynghori</td><td>Rhag 2006</td><td>Amserlenni a Rhaglen Waith ar gyfer Cynhyrchu CRhBA/RBMPs</td></tr>
<tr><td>Rhaglen Monitro Rhanbarthau Basnau Afonydd</td><td>Rhag 2006</td><td>Rhaglenni Monitro yn eu lle</td><td></td></tr>
<tr><td>Materion Pwysig ynglyn â Rhanbarthau Basnau Afonydd</td><td>Rhag 2007</td><td>Crynodeb o faterion pwysig ynglyn â rheoli dwr ar gyfer pob rhanbarth basn afon</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Cynllun Rheoli Basnau Afon</td><td>Drafft Rhag 2008</td><td rowspan="2">Cynllun rhanbarthol strategol yn crynhoi nodweddion Basnau Afonydd, pwysau ac effeithiau, materion pwysig a Rhaglenni o Fesurau</td><td></td></tr>
<tr><td>Terfynol Rhag 2009</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Rhaglen o Fesurau</td><td>Sefydlwyd Rhag 2009<br><br>Gweithredwyd Rhag 2012</td><td>Sefydlwyd Rhaglenni o Fesurau ar gyfer pob rhanbarth basnau afonydd</td><td colspan="2"></td></tr>
</table>

*Nodyn: Ar gyfer CDLl/LDPs yng Nghymru y dyddiad dechrau yw Hydref 2005 ac ni osodwyd unrhyw ddyddiad terfyn ar gyfer y cynlluniau hyn.

### CEFNOGI AWDURDODAU CYNLLUNIO

Mae'r GFfD yn dod â gofynion newydd heriol i gyflawni *"statws da"* erbyn 2015. Ond mae hyn yn ychwanegu at ac yn ymestyn yr agwedd sefydledig at

reoli dwr yn integredig a hyrwyddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd dros lawer o flynyddoedd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn un yr ymgynghorir yn â hi ynghylch cynlluniau gofodol strategol ac anelwn at sicrhau bod rheolaeth dwr cynaliadwy yn cael ei gynnwys yn llawn.

Yng Nghymru, dechreuwyd gweithredu Cynllun Gofodol Cymru (CGC/WSP) yn gynnar yn 2005. Bydd hwn yn rhoi ystyriaeth i'r materion allweddol sy'n ymddangos sy'n debygol o fod yn berthnasol i'r Rhaglen o Fesurau (gweler Adran 2) o dan y GFfD. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhoi cyngor ynglyn â'r materion hyn i grwp llywio cenedlaethol CGC a'r grwpiau cyfeirio prosiectau a sefydlwyd ar gyfer pob un o'r chwech o ardaloedd CGC.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cefnogi awdurdodau cynllunio drwy ei swyddogaeth fel un yr ymgynghorir yn statudol â hi ynghylch cynlluniau datblygu. Fel rhan o'i chyfranogiad gweithredol mewn cynlluniau datblygu bydd yn ychwanegu at y pwyslais cyfredol ar reoli dwr yn gynaliadwy gyda gofynion mwy penodol y GFfD wrth i wybodaeth ddod ar gael. Bydd er enghraifft:-

i) yn datblygu crynodebau o faterion sylweddol ynghylch Rheoli Dwr ar gyfer pob RBD gyda rhan-ddeiliaid allweddol gan gynnwys awdurdodau cynllunio
ii) yn cynnwys rheolaeth dwr cynaliadwy o fewn ei sylwadau ar Werthusiadau o Gynaladwyedd cynlluniau datblygu
iii) yn cynghori ynghylch polisïau priodol i'w cynnwys mewn cynlluniau datblygu
iv) yn cynghori ynghylch unrhyw rai o oblygiadau'r GFfD ar ddyraniadau tai arfaethedig.

Mae'n bwysig fod awdurdodau lleol a chyrff cynllunio rhanbarthol yn ymwneud yn gynnar â datblygu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd fel rhai sy'n "cyd-gyflwyno" polisi. Cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd ei Fframwaith ar gyfer Cynllunio Basnau Afonydd sy'n cyflwyno, ymysg pethau eraill, argymhellion ar gyfer sut y bydd yn cysylltu â chyd-gyflwynwyr a rhan-ddeiliaid eraill ym mhob Rhanbarth Basn Afon. Mae'r ddogfen yn adlewyrchu'r 130 a mwy o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y strategaeth drafft *"Dwr ar gyfer Bywyd a Bywioliaethau"*. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn sefydlu Paneli Cyswllt Rhanbarthau Basnau Afonydd yng nghanol 2006.

## ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL

Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn berthnasol i rai o "gynlluniau a rhaglenni" Asiantaeth yr Amgylchedd gan gynnwys proses Cynllunio Basnau Afonydd y GFfD. Ar gyfer cynlluniau gofodol, a baratowyd gan awdurdodau cynllunio, gellir bodloni gofynion y Gyfarwyddeb AAS drwy weithredu gwerthusiad cynaladwyedd.

Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn creu'r angen i gasglu ac asesu amrediad eang o wybodaeth yn ogystal â rhoi adroddiadau ychwanegol. Er enghraifft, rhaid cynhyrchu Adroddiad Amgylcheddol ar wahân yn ogystal â'r adrodd sy'n gysylltiedig â'r cynllun neu'r rhaglen. Er nad oes angen i'r adroddiad

amgylcheddol gael ei gyhoeddi fel dogfen ar wahân i'r cynllun neu raglen ddrafft, rhaid gallu gwahaniaethu rhyngddynt. Mae'r Gyfarwyddeb AAS hefyd yn cynnwys gofynion ar gyfer ymgynghori â chyrff statudol â'r cyhoedd yn ystod camau penodol yn y broses. Bydd angen i'r camau ymgynghori hyn gael eu hintegreiddio gyda'r broses CBA/RBP.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn un yr ymgynghorir yn statudol â hi ar gyfer AAS cynlluniau a rhaglenni a baratowyd gan eraill. Gall hyn fod yn fecanwaith i gysylltu GFfD â chynllunio defnydd tir cyn i CRhBA/RBMPs gael eu cynhyrchu.

**MESURAU A CHYLLID**

Mae gan y Gyfarwyddeb oblygiadau ar gyfer amrediad eang iawn o gyrff y tu mewn a'r tu allan i'r diwydiant dŵr. Mae angen i amrediad llawer mwy amrywiol o sectorau a chyrff gyfrannu'n uniongyrchol at fesurau i gyflawni statws da nag sydd wedi bod yn digwydd yn draddodiadol ar gyfer ansawdd dŵr. Bydd angen i'r sector Amaethyddiaeth ac Asiantaeth y Priffyrdd, er enghraifft, weithredu i oresgyn llygredd gwnaedig. Bydd cyllido seilwaith dŵr i gefnogi datblygiad drwy broses y Cynllun Rheoli Asedau yn sicr yn parhau. Ond mae hyn yn codi rhai cwestiynau:

i) Mae cyllido fel hyn yn golygu nad oes seilwaith yn ei le hyd nes bydd y datblygiad wedi digwydd. Ni chafodd hyn ei herio yn y gorffennol, ond gallai fod yn broblem yn awr oherwydd yr angen i atal dirywiad.

ii) O dan y GFfD rhaid cymharu cost effeithiolrwydd gwahanol fathau o fesurau i gyflawni statws da. Gallai hyn arwain at symud oddi wrth atebion yn ymwneud â "diwedd y bibell". Efallai y bydd mesurau fel SUDS a defnyddio rheoliadau adeiladu diwydiedig arfaethedig yn well dewisiadau. Byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno drwy awdurdodau lleol.

Gall datblygiad newydd roi cyfle i ymdrin â phwysau presennol ar yr amgylchedd dŵr, drwy ddylunio a chynllunio prosiectau yn ddychmygus, yn ogystal â'r defnydd o amodau cynllunio a rhwymedigaethau cynllunio a atodir wrth ganiatadau cynllunio. Lle bo gwastraff, neu etifeddiaeth o dir wedi ei ddifwyno neu ddŵr mwyngloddiau, yn achosi llygredd i gyrff dŵr, bydd angen ymyrraeth drwy ystod o awdurdodau ac asiantaethau i lanhau neu liniaru'r problemau hyn.

Bydd datblygu mesurau i gyflawni amcanion y GFfD yn golygu gweithio gyda'r holl gyfranwyr posibl ('cyd-gyflwynwyr') i sefydlu'r dull mwyaf cost-effeithiol o sicrhau *"statws da".* Gall Rhaglenni o Fesurau ar gyfer pob Rhanbarth Basn Afon olygu cyfuniadau o weithgareddau sy'n berthnasol ar wahanol raddfeydd i gyflawni *"statws da"* yn y dull mwyaf cost effeithiol. Mae rhai mesurau yn debygol o fod yn berthnasol ar draws Cymru a Lloegr i gyd (gan ddirwyn i ben rai sylweddau y rhoddir blaenoriaeth iddynt ac ati), tra gellir cymhwyso eraill o fewn Rhanbarthau Basnau Afonydd unigol (polisïau RSS, Strategaethau Gwledig ac ati). Cymhwysir rhai o'r mesurau hefyd ar raddfa dalgylch (is-Ddosbarth) (Strategaethau Rheoli Tynnu Dŵr o Ddalgylchoedd (CAMS) a

polisïau Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylchoedd, trwyddedu amgylcheddol a chaniatáu, polisïau LDF, rhwymedigaeth cynllunio ac ati). Gweler Astudiaeth Achos 3 isod.

**Astudiaeth Achos 3 – Glan y Dwr Leeds**

Mae trawsnewid glan y dwr o fod yn ferddwr aflan i fod yn lleoliad gwych i gartrefi a busnesau wedi bod yn ysblennydd. Mae'n enghraifft bwysig o sut y gall gwelliannau mewn ansawdd dwr wella ardal drwy ddenu busnes a buddsoddiad newydd. Ond mae llawer ar ôl i'w wneud i osgoi'r perygl o fethu â chyflawni amcanion y GFfD. Er gwaethaf buddsoddiad diweddar sylweddol i wella'r amgylchedd dwr, bydd angen gweithredu ymhellach ar y Gyfarwyddeb. Bydd gwelliannau yn ymwneud ag ystod wedi ei chydlynu o atebion technegol yn angenrheidiol. Mae creu **Partneriaeth Rheoli Cyflwr yr Afon (PRhCA)** yn enghraifft wych o bartneriaeth yn gweithio er budd cyffredin ac yn fodel o agwedd fwy cynhwysol at reolaeth amgylcheddol. Anela'r bartneriaeth PRhCA at wella'r amgylchedd a mwynderau dyfroedd Aire drwy gydweithio a thrwy'r broses o gynllunio defnydd tir.

# ADRAN 4 – SWYDDOGAETHAU I WEITHREDU'R GFfD

## LLYWODRAETH

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Lloegr a Chynulliad Cenedlaethol Cymru y cyfrifoldeb yn y pen draw am weithredu'r GFfD. Mae ganddynt gyfrifoldeb ar y cyd am y ddau ranbarth basnau afonydd sy'n rhychwantu'r ffin rhwng Cymru a Lloegr (Hafren a Dyfrdwy). Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys:

- Cymeradwyo CRhBA/RBMPs sy'n cynnwys amcanion amgylcheddol a chrynodeb o Raglenni o Fesurau;
- Y grym i gyhoeddi canllawiau i Asiantaeth yr Amgylchedd a chyrff cyhoeddus eraill, y mae'n rhaid iddynt roi ystyriaeth iddynt;
- Cwblhau dadansoddiadau economaidd o ddefnydd tir sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb.

## ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD

Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r awdurdod galluog dros y GFfD yng Nghymru a Lloegr. Yn rhinwedd hyn, mae'n gyfrifol am arwain y cylchoedd chwe blynedd o gynllunio a chyflwyno gweithredu i gyflawni amcanion y GFfD. Cyflwynir Gweledigaeth yr Asiantaeth ar gyfer y GFfD yn fframwaith y CBA/RBP:-

*"Amgylchedd dwr bywiog i fywyd gwyllt a phobl, gan integreiddio rheoli tir a dwr drwy:*

- *greu agwedd fwy integredig, tymor hir at gynllunio a rheoli basnau afonydd;*
- *gweithio'n agos gyda'n partneriaid a darparu mwy o gyfle i ran-ddeiliaid gymryd rhan;*
- *anelu at sicrhau manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar yr un pryd;*
- *cyfarwyddo adnoddau cyfyngedig at ble byddant yn dod â'r budd mwyaf."*

Ond yr unig ffordd y gellir gwireddu'r weledigaeth hon er hynny yw drwy weithio gydag eraill. Mae dysgu oddi wrthynt, datblygu ar y wybodaeth sy'n bodoli'n barod a datblygu ymrwymiad cyffredin at fesurau angenrheidiol yn hanfodol.

Mae Fframwaith Cynllunio Basnau Afonydd Asiantaeth yr Amgylchedd – 'Dwr ar gyfer Bywyd a Bywioliaethau – fframwaith ar gyfer cynllunio basnau afonydd' yn cyflwyno trefniadau **arfaethedig** ar gyfer ymgynghori a chyfranogi ynghylch y GFfD sy'n seiliedig ar gysylltu gweithgareddau ar wahanol raddfeydd:-

**Cyfranogiad Cenedlaethol**

Bydd Grwp Rhan-ddeiliaid Cenedlaethol yn rhoi mewnbwn i bolisïau a gweithdrefnau i gael eu datblygu gan Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Llywodraeth.

**Cysylltu â Rhanbarthau Basnau Afonydd**

Bwriedir i'r Rhanbarth Basnau Afonydd fod yn brif ffocws ar gyfer cysylltu â Phaneli Cyswllt a sefydlwyd ym mhob RhBA. Mae Rhanbarth Basn Afon yn cynnwys un neu fwy o "ddalgylchoedd". Ceir 9 o Ranbarthau Basnau Afonydd yng Nghymru a Lloegr (a dau ranbarth sy'n croesi ffiniau gyda'r Alban). Yn Lloegr maent yn fras ar yr un raddfa â rhanbarthau Swyddfeydd y Llywodraeth, er bod y ffiniau yn wahanol. Dyma'r brif uned ddaearyddol ar gyfer gweithredu amcanion y GFfD. Bydd un Cynllun Rheoli Basn Afon ac un Rhaglen o Fesurau ar gyfer pob Rhanbarth Basn Afon.

**Cysylltiad ar raddfa dalgylch**

Oherwydd bod rhai Rhanbarthau Basnau Afonydd yn fawr a bod y pwysau amgylcheddol yn gymhleth, bydd angen eu his-rannu yn ddalgylchoedd i bwrpas cynllunio dwr. Er nad yw cynllunio ar raddfa dalgylch yn brif ffocws cynllunio basnau afonydd, bydd er hynny yn gwneud cyfraniad sylweddol. Byddwn yn gweithio gyda rhwydweithiau a fforymau presennol neu gallwn greu rhai newydd lle nad oes unrhyw rwydwaith yn bodoli.

**Cysylltiad lleol**

I lawer o ran-ddeiliaid, mae'r lefel y mae materion sy'n gysylltiedig a dwr yn bwysig, a lle dymunant wneud gwahaniaeth, yn lleol iawn. Yr amcan yw parhau i drafod materion lleol penodol gydag unigolion a rhwydweithiau sy'n bodoli'n barod, gan ganolbwyntio sylw ar leoedd a chymunedau ble mae'r peryglon fwyaf.

**LLYWODRAETH LEOL**

**Mae gan awdurdodau lleol rôl ganolog mewn gweithredu'r GFfD**, mewn partneriaeth gydag eraill. Mae Adran 3 yn tynnu sylw at bwysigrwydd y GFfD ar gyfer Cynllunio Gofodol. Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer awdurdodau lleol:-

- cysylltu â'r broses Cynllunio Basnau Afonydd;
- cynnwys blaenoriaethau'r GFfD o fewn cynlluniau eraill;
- cyflwyno neu helpu i gyflwyno mesurau i gyflawni amcanion y GFfD.

Ni fydd amcanion sy'n benodol ar gyfer y GFfD ar gyfer pob corff dwr yn cael eu ffurfioli tan 2009. Ond gellir cyflwyno polisïau yn awr a fydd yn cwtogi ar effaith datblygiad ar yr amgylchedd dwr, yn cynnal ansawdd y dwr, yn sicrhau adnoddau dwr digonol ac yn hyrwyddo cynaladwyedd o ran defnydd dwr. Bydd canolbwyntio ar egwyddorion rheoli dwr yn gynaliadwy yn paratoi ar

gyfer llwyddiant i fodloni amcanion y GFfD ac yn helpu i sicrhau amgylchedd lleol o ansawdd uchel.

Gall llawer o weithgareddau eraill awdurdodau lleol gyfrannu hefyd at gyflawni amcanion y GFfD, neu gellid effeithio arnynt gan flaenoriaethau'r GFfD. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Strategaethau Cymuned Gynaliadwy
- Partneriaethau Strategol Lleol
- Rheoli tir awdurdodau lleol a pharciau gwledig
- Datblygiad economaidd lleol
- Datblygiad cymunedol
- Cyfrifoldebau yn ymwneud â rheoli llifogydd a draenio (gan gynnwys mabwysiadu Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS)
- Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys cyflenwad dwr cyhoeddus.

Mae Astudiaeth Achos 4 yn rhoi enghraifft dda o arweiniad cryf gan awdurdod lleol ynghylch dwr.

**Astudiaeth Achos 4 – Strategaeth Dwr Hampshire**

Mae'r amgylchedd dwr yn Hampshire o ansawdd uchel ac mae'n rhan bwysig o gymeriad y Sir. Bu i bryder am effaith datblygiad hybu'r Cyngor Sir i sefydlu Grwp Ymgynghori ynghylch Dwr Hampshire a hyrwyddo Strategaeth Dwr Hampshire. Datblygwyd y Strategaeth gyda rhan-ddeiliaid drwy weithdai ac ymgynghori. Ei nod yw *"sicrhau dyfodol tymor hir afonydd, gwlyptiroedd a dyfrhaenau hynod Hampshire"* drwy ddatblygu agwedd integredig at ddwr. Er nad oes gan y Strategaeth unrhyw statws statudol bydd agweddau ac argymhellion allweddol yn cael eu cynnwys o fewn cynlluniau datblygu. Mae'n enghraifft wych o gynllun cynllunwyr awdurdodau lleol yn cysylltu â rhan-ddeiliaid ynghylch rheoli dwr yn gynaliadwy drwy'r system gynllunio.

Er mwyn gweithredu'r GFfD yn llwyddiannus mae angen cyfranogiad gweithredol awdurdodau lleol ar draws y rhain a'u holl swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Mae'r tabl isod yn nodi'r berthynas rhwng rolau awdurdodau lleol a gofynion y GFfD.

**TABL 1 SWYDDOGAETHAU AWDURDODAU LLEOL A'R RHYNGWEITHIO GYDA'R GFfD**

| *Rôl Awdurdod Lleol* | Rhanbarthol | Unedol | Bwrdeistref/ Dosarth | Sir | **Rhyngweithio â'r GFfD**<br>Cysylltu â chysyniadau CRhBA/RBMPs neu'r GFfD yn angenrheidiol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Cynllunio**<br>Datblygiad Adeiledig (gan gynnwys Rheoliadau Adeiladu) | | | | | • Cynlluniau datblygu, Cynlluniau Rheoli Tyniadau o Ddalgylchoedd (CAMS)<br>• Rhannu gwybodaeth rhwng L PAs ac Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch meysydd a nodwyd ar gyfer datblygiad – math, graddfa ac amserlen mor fuan â phosibl<br>• Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ddwr, gan gynnwys o fewn dyluniad adeiladau newydd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Hyrwyddo Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS) ar gyfer pob datblygiad<br>• Osgoi datblygiad amhriodol mewn ardaloedd sensitif er enghraifft, gorlifdiroedd a chylchfaoedd gwarchod ffynonellau dwr daear<br>• Gallu digonol i drin dwr gwastraff lleol (gweler Astudiaeth Achos Baskingstoke) |
| Mwynau | | | | | • Fframweithiau/Cynlluniau Datblygu Mwynau |
| Gwastraff | | | | | • Fframweithiau/Cynlluniau Datblygu Gwastraff |
| Cludiant | | | | | • Cynllun Cludiant Lleol |
| **Awdurdod y Priffyrdd** | | | | | |
| Ffyrdd | | | | | • Draenio dwr wyneb: Cymhwyso atebion SUDS, mae angen i adnoddau trin dwr gwastraff lleol fod yn ddigonol ar gyfer llifiadau dwr storm |
| Hawliau Tramwy | | | | | |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | • Strategaethau gwastraff, hyrwyddo cwtogi ar wastraff, cwtogi ar ddwr ffo |
| **Draenio/Amddiffyn Rhag Llifogydd** | | | | | • Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylchoedd, cynlluniau strategaeth ac atebion rheoli perygl llifogydd |
| **Tirfeddiannwr/ rheolwr tir** | | | | | |
| Fferm a mân ddaliadau | | | | | • CAMS, cynlluniau rheoli ar gyfer tir mwynderau gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA)<br>• Hyrwyddo arfer amaethyddol da<br>• Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ddwr yn nhermau tynnu a dyfrhau<br>• Defnyddio arfer gorau i gwtogi ar berygl llygredd o un pwynt penodol neu lygredd gwanedig |
| Tir ar gyfer mwynderau gan gynnwys parcdir | | | | | |
| Hawliau tramwy/tir mynediad agored | | | | | |
| **Gwasanaethau gwybodaeth/ ymgynghorol** | | | | | |
| Databasau Ecoleg / Archaeoleg | | | | | • Rhoi gwybodaeth i Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Cofrestr yr Ardaloedd a Warchodir |
| Cynghorwyr rheoli tir | | | | | • Bydd yn ofynnol cynghori ynghylch goblygiadau'r GFfD, felly bydd angen gwybodaeth berthnasol |
| Adrodd ynghylch cyflwr yr amgylchedd | | | | | • Cyfnewid gwybodaeth gyda'r CRhBA/RBMP |
| **Cynllunio Cymunedol** | | | | | • Strategaeth Gymunedol Gynaliadwy<br>• Gallai ymgynghoriad ynghylch materion cymunedol fwydo i'r broses ymgynghori ynghylch y GFfD<br>• Ystyried defnydd tir a materion ynghylch cyflenwad dwr<br>• Hyrwyddo defnydd effeithiol o ddwr<br>• Mae gan "statws da" oblygiadau ar gyfer ansawdd bywyd, iechyd, adfywhau ac ati |
| **Iechyd amgylcheddol** | | | | | • Ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd cyn adfer tir wedi ei ddifwyno i sicrhau na cheir unrhyw effaith ar ddwr daear neu ddwr wyneb |
| **Cynllunio ar gyfer Argyfwng** | | | | | • Rhaid i amgylchiadau eithriadol (achos naturiol neu *force majeur)* a allai achosi dirywiad dros dro mewn statws dwr a mesurau wedi eu cynllunio i ymdrin â hyn gael eu cynnwys yn y CRhBA/ RBMP |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | (Atodiad VII 7.8) |
| **Datblygiad Economaidd** | | | | | • Rhaid i Gynlluniau Adfywhau ystyried effeithiau potensial ar yr amgylchedd dwr.<br>• Gall gwell ansawdd dwr fod o fudd i ddatblygiad economaidd ac adfywhau. |

Gallai strategaethau cymunedol cynaliadwy fod yn fecanwaith pwysig ar gyfer sicrhau cyfranogiad lleol yn y gwaith o gyflwyno'r GFfD. Mewn termau ymarferol, dylent ystyried sut y gellir cyflawni anghenion cymunedau lleol am dai, diogeledd, iechyd, gwaith, addysg, hamdden a mynediad at amgylcheddau o ansawdd da a diogel mewn modd integredig. Dylai strategaethau roi ystyriaeth i adnoddau dwr a'r angen am reoli galw, yn ogystal â pherygl llifogydd ac ansawdd dwr. Gallent hefyd gydnabod manteision statws da ar gyfer iechyd, cyflogaeth, adfywhau a hamdden.

Gall Partneriaethau Strategol Lleol yn Lloegr a Phartneriaethau Strategol Cymunedol yng Nghymru helpu i gydlynu ffrydiau gwaith partneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i gyflwyno amcanion bras y cynlluniau cymunedol. Mae gwaith Ymgyrch Basn Merswy (Astudiaeth Achos 5) isod yn tynnu sylw at y rôl gadarnhaol y gall materion dwr eu chwarae mewn adfywhau a gwelliannau amgylcheddol a gefnogir gan gymunedau lleol.

**Astudiaeth Achos 5 – Ymgyrch Basn Merswy**

Sefydlwyd Ymgyrch Basn Merswy ym 1985 ac mae'n rhaglen arloesol tymor hir o gynllunio amgylcheddol integredig. Ar ddechrau'r Ymgyrch Merswy oedd yr afon oedd wedi ei llygru fwyaf yn y DG ac o bosibl yn Ewrop. Erbyn 2001 roedd eogiaid wedi dychwelyd i'r afon ar ôl absenoldeb o dros 100 mlynedd. Mae'r Ymgyrch yn dwyn ynghyd y partneriaid allweddol yn y rhanbarth gyda'r bwriad o adfywhau'r amgylchedd. Daw hyn â manteision cymdeithasol ac economaidd. Mae'n dangos gwerth rheolaeth amgylcheddol ar draws Dalgylch cyfan gan sicrhau cyfranogiad gan y gymuned a rhan-ddeiliaid.

Mae adfywhau Salford Quays gyda'i atyniadau allweddol sef Canolfan Lowry a'r Imperial War Museum North, yn enghraifft y rhoddir llawer o sylw iddi o'r hyn y gellir ei gyflawni pan fo amgylcheddwyr a chynllunwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gysylltu â'r cyhoedd. Mae'r Ymgyrch yn bartner mewn tri o brosiectau'r Undeb Ewropeaidd. Mae un o'r rhain yn sefydlu rhwydwaith o awdurdodau lleol a bwrdeistrefi ar draws Ewrop i helpu cynllunwyr gofodol i ganolbwyntio ar ddwr ac ymdrin â gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Ddwr.

Mae angen i Asiantaeth yr Amgylchedd dynnu ar brofiad llywodraeth leol i gysylltu â'r cyhoedd yn well ynghylch materion yn ymwneud â dwr. Gall mecanweithiau sefydledig i sicrhau cyfranogiad gan y cyhoedd fel Partneriaethau Strategol Lleol, Partneriaethau Strategaeth Cymunedol Cynaliadwy a chyfranogiad cyhoeddus ynghylch cynlluniau datblygu fod â rôl bwysig i'w chwarae. Gall awdurdodau lleol helpu Asiantaeth yr Amgylchedd i sefydlu ffyrdd effeithiol o sicrhau cyfraniad gan gymunedau. Mae cyfle i ddatblygu cysylltiadau rhwng anghenion cyfranogiad cyhoeddus sy'n cael ei yrru gan y Gyfarwyddeb a gweithgareddau cyfranogol awdurdodau lleol.

**ERAILL**

Er y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn arwain y broses, ni all gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd na chyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr ar ei phen ei hun. Mae gan gyrff amgylcheddol statudol eraill fel Natural England (English Nature a'r Asiantaeth Cefn Gwlad), English Heritage a Chyngor Cefn Gwlad Cymru a Chadw yng Nghymru, ddiddordeb brwd yn y modd y mae cyrsiau dwr yn cael eu rheoli. Bydd gan y nifer o grwpiau amgylcheddol lleol a grwpiau mwynderau a hamdden sy'n bodoli i ddefnyddio a gwarchod cyrff dwr rôl hanfodol i'w chwarae hefyd. Mae mudiadau pysgota, er enghraifft, yn cadw cyfoeth o wybodaeth am y cyrff dwr y maent yn eu pysgota, sy'n aml yn cynnwys cofnodion hanesyddol pwysig.

Mae gan lawer o fudiadau masnachol ddiddordeb yn y modd y mae dwr yn cael ei reoli a'i ddefnyddio. Mae rhai gweithgareddau yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd ecolegol cyrff dwr (fel diwydiannau sy'n dibynnu ar dynnu dwr o afonydd ac arllwys i afonydd). Mae swyddogaeth y cwmnïau dwr yn arbennig, yn sylfaenol.

Bob pum mlynedd mae Ofwat (Y Swyddfa Gwasanaethau Dwr) yn ailosod y ffiniau ar gyfer prisiau y caniateir i gwmnïau dwr eu codi ar eu cwsmeriaid. Adwaenir hwn fel yr Arolwg Cyfnodol ac mae'n cynnwys cynlluniau busnes y cwmnïau dwr (a elwir yn Gynlluniau Rheoli Asedau). Yn eu Cynllun Rheoli Asedau mae pob cwmni dwr yn cyflwyno'r gwasanaethau a'r gwelliannau y bwriada eu darparu. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol fel gwell triniaeth i garthffosiaeth a gostyngiadau yn effaith tyniadau dwr ar afonydd, yn ogystal â gwlyptiroedd. Yr allbynnau hyn o'r arolwg cyfnodol mae'n debyg fydd prif gyfraniad y diwydiant dwr at y Rhaglenni o Fesurau.

Er bod y diwydiant dwr yn sector a fydd yn gwneud cyfraniad arbennig o bwysig i weithredu'r GFfD, bydd gan eraill swyddogaeth bwysig hefyd. Bydd amaethyddiaeth er enghraifft yn gyfrannwr pwysig tuag at ymdrin â llygredd gwanedig. Yn ychwanegol at gyfrannu at fesurau, gall anghenion gwahanol sectorau hefyd fod yn gwrthdaro â'i gilydd. Felly bydd yn rhaid i ofynion sectorau allweddol fel amaethyddiaeth, porthladdoedd a mordwyo, diwydiannau cemegol, mwydion a phapur ac ati gael eu cyfuno ag anghenion amgylcheddau dwr iach a'r galwadau am gyflenwadau dwr a thrin carthion.

# PENNOD 5 CYNGOR PELLACH

Cafodd y Cyngor dechreuol hwn i Awdurdodau Cynllunio ei ddrafftio ar adeg pan fo llawer o fanylion ynglyn â gweithredu'r GFfD yn parhau heb eu cwblhau ar eu ffurf derfynol. Nid ydynt yn ganllawiau terfynol ond yn hytrach yn gam cyntaf ein cyngor. Mae'r GFfD yn broses ailadroddus a bydd ein cyngor parhaus yn adlewyrchu hyn. Wrth i benderfyniadau gael eu gwneud ac wrth i fwy o wybodaeth fod ar gael bydd y cyngor hwn yn cael ei ehangu a'i ddiweddaru.

Cyhoeddodd Asiantaeth yr Amgylchedd 'Fframwaith ar gyfer Cynllunio Basnau Afonydd' yn Ionawr 2006. Mae hwn yn adlewyrchu'r 130 a mwy o ymatebion i'r ymgynghoriad ynglyn â'r strategaeth ddrafft *"Dwr ar gyfer Bywyd a Bywoliaethau".*

Ymgynghorodd Defra a Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch Canllawiau Cynllunio Basnau Afonydd o 13 Rhagfyr 2005 i 7 Mawrth 2006 [gweler http://www.defra.gov.uk/corporate/consult/wfd/index.htm] ac maent yn anelu at gyhoeddi'r canllawiau yn Hydref 2006.

Cynhaliodd ODPM gyfres o weithdai rhanbarthol ar ddiwedd 2005 i ymchwilio i a datblygu gyda chynllunwyr gofodol fwy o ddealltwriaeth ynghylch goblygiadau'r GFfD ar gyfer y gymuned cynllunio. Cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru weithdy tebyg ym Mawrth 2006.

Mae cynllunwyr Rhanbarthol ac Ardal Asiantaeth yr Amgylchedd yn cymryd rhan mewn cynlluniau datblygu a byddant yn defnyddio'r Cyngor hwn fel sail ar gyfer trafodaethau gydag awdurdodau cynllunio ynghylch y GFfD a chynllunio.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ymrwymo i barhau â deialog ac i gynnal rhaglen o ddigwyddiadau sydd wedi eu hanelu at ddatblygu ymwybyddiaeth, fel cynhadledd genedlaethol RTPI ynghylch y GFfD a chynllunio yn Rhagfyr 2005 a nifer o gynadleddau rhanbarthol RTPI.

**Atodiad 1**

# FFINIAU RHANBARTHAU BASNAU AFONYDD, SWYDDFEYDD Y LLYWODRAETH A LLYWODRAETH LEOL

Noder: Mae “Ffiniau Llywodraeth Leol” yn ffiniau Awdurdodau Rhanbarthau Lleol ar gyfer Lloegr ac Awdurdodau Unedol ar gyfer Cymru.